# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR DATBLYGU A CHYFLWYNO POLISI ADDYSG A SGILIAU

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MERCHER, 9 AWST 2017 AM 4.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd R V Smith (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| S E Crouch | B Hopkins | L R Jones |
| M A Langstone | M B Lewis | S Pritchard |
| K M Roberts | D W W Thomas | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Phil Holmes | Pennaeth Adfywio Economaidd a Chynllunio |
| Brian Roles | Pennaeth Cynllunio ac Adnoddau Addysg |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): F M Gordon, C L Philpott ac M Sykes

9 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.

10 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Addysg a Sgiliau a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf fel cofnod cywir.

11 **TROSOLWG O'R FARGEN DDINESIG. (CYFLWYNIAD-PHIL HOLMES)**

Rhoddodd Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas gyflwyniad i'r pwyllgor a oedd yn drosolwg cynhwysfawr o Fargen Ddinesig Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

Fel rhan o'r cyflwyniad, amlinellodd y meysydd pwnc canlynol yn fanwl:

- Hanes cefndir y cais
- Y cytundebau a'r trefniadau partneriaeth sydd ar waith rhwng yr awdurdodau lleol amrywiol, y prifysgolion, cyrff cyhoeddus, diwydiannau preifat, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.
- Prif nodau a heriau'r prosiect.
- Y gweledigaethau, yr effeithiau a ragwelir a'r ymyriadau cynlluniedig

- Cyd-fynd â strategaeth ddiwydiannol y DU
- Nodau ar gyfer cyflwyno prosiectau a chreu swyddi
- Amlinellwyd dadansoddiad o gyllid a buddsoddiad o arian y Fargen Ddinesig a buddsoddiad diwydiannau preifat ar gyfer pob cynllun
- Enillion arfaethedig ar y buddsoddiad, a nodau ac amcanion prosiectau
- Blaen-lwytho arian awdurdodau lleol i gychwyn prosiectau
- Cynigion Rhanbarth Arloesedd Clyfar Iawn gan gynnwys Campws a Phentref Gwyddorau Bywyd a Lles, Canolfan Gwyddoniaeth Dur, Ffatri'r Dyfodol, Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer a Model Achos Busnes Prosiect Morol 5 Doc Penfro sy'n cael eu paratoi ar hyn o bryd ar gyfer yr holl gynlluniau.
- Y fenter Sgiliau a Doniau sy'n cael ei harwain gan y Bartneriaeth Sgiliau Dysgu Rhanbarthol
- Isadeiledd Digidol Rhanbarthol
- Datblygu Canolfannau Rhagoriaeth yng Ngwasanaethau Digidol y Genhedlaeth Nesaf
- Cysylltiadau ag S4C i ddatblygu Clwstwr Digidol Creadigol "Yr Egin"
- Adfywio Canol Dinas Abertawe a'r prif brosiectau a gynhwysir yn y prosiect hwnnw: arena, gwesty, maes parcio aml-lawr, gwely prawf cyfathrebu symudol 5G ac ailddatblygu safle Dewi Sant
- Datblygu Rhanbarth Busnes Digidol y Glannau
- Ardal Ddigidol Ffordd y Brenin
- Amserlenni cyflwyno
- Trefniadau llywodraethu

Gofynnodd y pwyllgor nifer o gwestiynau i Bennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas ynghylch ei gyflwyniad, ac ymatebodd yntau'n unol â hyn.  Canolbwyntiodd y trafodaethau ar y pynciau canlynol:

- Yr angen am fanteision gwirioneddol, yn enwedig hybu cyfleoedd swyddi lleol
- Angen buddsoddiad mewn ysgolion, i sicrhau eu bod yn y sefyllfa orau i ddiwallu anghenion y bydd eu hangen ar bobl ifanc yn y dyfodol
- Yr angen i athrawon presennol a'r rhai dan hyfforddiant ddysgu sgiliau a phynciau newydd a fydd yn eu tro yn datblygu sgiliau pobl ifanc i sicrhau eu bod yn gwneud yn fawr o gyfleoedd a ddaw yn sgîl y Fargen Ddinesig
- Y potensial i ddatblygu cysylltiadau â'r brifysgol, er enghraifft ehangu'r cynllun "Gwersylloedd Technolegol" presennol
- Yr angen i ddysgu o brofiadau dinasoedd eraill o'r Fargen Ddinesig, yn enwedig o ran perchnogaeth "eiddo deallusol"
- Y potensial i ddatblygu cysylltiadau â chwmnïau lleol llwyddiannus wrth ddatblygu cynllun Ffordd y Brenin

Diolchwyd i'r Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas gan y Cadeirydd am ei gyflwyniad llawn gwybodaeth.

## 12 **CYNLLUN GWAITH 2017/2018.**

Amlinellodd y Cadeirydd y cynllun gwaith ar gyfer y pwyllgor a gweddill blwyddyn ddinesig 2017/2018.

**PENDERFYNWYD** nodi'r cynllun gwaith fel ei amlinellwyd.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.05 pm

**CADEIRYDD**